

Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro



COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
DYDD IAU 8 Chwefror 2018 am 10.00am
Adeilad Rheoli Gorsaf Dân Hwlfordd

Yn bresennol:

| | |
|------------------------|---|
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Cadeirydd) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Is-gadeirydd) |
| Ian Westley | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro (gadawodd am 11.50am) |
| Alec Don | Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau |
| Natalie Pearson | Pennaeth Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru |
| Uwch-aryogydd Ian John | Heddlu Dyfed Powys |
| Jessica Morgan | PLANED |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Ros Jervis | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Sharron Lusher | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Andrea Winterton | Rheolwr Gweithrediadau'r De Orllewin Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Jonathan Feild | Rheolwr Cyflogwyr a Phartneriaethau, yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Carys Morgans | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Datblygu, Cyngor Sir Penfro |
| Rob Quin | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Cyng. David Simpson | Arweinydd, Cyngor Sir Penfro (gadawodd am 11.00am) |

Hefyd yn bresennol

| | |
|----------------------|--|
| Claire George | Cydlynnydd Cymorth Partneriaethau a Chraffu, Cyngor Sir Penfro |
| Amy Richmond | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Dr Polly Sills-Jones | Cydlynnydd y Cynllun Llesiant Rhanbarthol |

Cymorth/ Ysgrifenyddiaeth

| | |
|----------------|--|
| Nick Evans | Rheolwr Cymorth Partneriaethau a Chraffu, Cyngor Sir Penfro |
| Lynne Richards | Cydlynnydd Cymorth Partneriaethau a Chraffu, Cyngor Sir Penfro |

Ymddiheuriadau

| | |
|--------------------|---|
| Bernadine Rees | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Christine Harley | Pennaeth Uned Cyflenwi Lleol Dyfed Powys, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Rowland Rees-Evans | Cadeirydd, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dyfed Powys |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ddydd Mawrth 21 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

Nododd SPJ fod y digwyddiad Tlodi yn Sir Benfro, a oedd i'w gynnal ar ddiwedd y llynedd ac a fyddai wedi'i arwain gan Victoria Winkler, Prif Swyddog Gweithredol Sefydliad Bevan, wedi'i ad-drefnu ar gyfer 28 Chwefror am 2.00pm. Bydd LR yn dosbarthu manylion pellach.

LR

Nodwyd y byddai'r cais am gyllid ar gyfer hyfforddiant Diffibrilwyr Cymunedol, a gyflwynwyd yn dilyn y prosiect Diffibrilwyr a gychwynwyd gan RQ, yn mynd i gyfarfod Bwrdd Grŵp Gweithredu Lleol LEADER yr wythnos nesaf am benderfyniad. Dywedodd RQ y byddai'n rhoi diweddariad ar y prosiect Diffibrilwyr yn y cyfarfod nesaf.

NE ar
gyfer
agenda

Rhododd NE ddiweddariad am ddatblygiadau o gwmpas trefniadau ar gyfer digwyddiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) rhanbarthol a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Mai/Mehefin. Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod nesaf.

NE ar
gyfer
agenda

3. Cofnod Gweithredu

Cais am Dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfraniadau'r BGC tuag at oresgyn tlodi – roedd NE wedi cydlynu ymateb ar gyfer Sir Benfro a'i ddychwelyd ddiwedd mis Tachwedd.

Protocol Rhannu Data'r BGC – caiff hwn ei gynnwys fel cam gweithredu yn y Cynllun Llesiant

Swyddogion Cymorth y BGC – cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017

Cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â chynrychiolaeth ar y BGC – Darparwyd adroddiad ar gyfer cyfarfod y Grŵp Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned ar 4 Rhagfyr 2017, yn gofyn am ystyried sut y byddai'r broses enwebu'n gweithio a sut y gellir bwydo safbwyntiau pob Cyngor Tref a Chymuned i'r BGC. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn.

Diweddariad ar Adolygiad Cymunedau yn Gyntaf – ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y diweddariad a roddwyd yn y cyfarfod diwethaf.

Gweithdy Treftadaeth Ddiwylliannol – nododd NE fod y Seminar wedi'i ohirio ac y bydd yn cael ei ad-drefnu

4. Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro

Amlinellodd NE rôl aelodau'r BGC o ran cytuno ar fersiwn ddrafft derfynol o'r Cynllun Llesiant, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau, y bydd partneriaid yn ei gymryd trwy eu trefniadau llywodraethu cyn rhoi cymeradwyaeth derfynol i'r Cynllun ym mis Ebrill cyn ei gyhoeddi ym mis Mai. Nododd y derbyniwyd 24 ymateb i ymgynghoriad y Cynllun a rhoddodd drosolwg byr o rai o'r ymatebion mwyaf cyffredin. Roedd strwythur y Cynllun wedi newid ychydig yn dilyn ymgynghoriad a chyfarfodydd y grwpiau cydlynu a gynhaliwyd ym mis Ionawr, gan y daeth yn amlwg fod nifer o groesbwyntiau rhwng pob un o'r pedwar maes blaenoriaeth.

Nododd NE fod mater tai fforddiadwy a phriodol wedi dod i'r amlwg trwy gydol y broses gynllunio fel ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar lesiant pobl. Fodd bynnag, roedd tai yn absennol o'r Cynllun ar hyn o bryd gan fod y Grwpiau Cydlynu wedi cael trafferthion o ran diffinio'n union beth y gallai'r BGC ei wneud gyda'i gilydd i fynd i'r afael â hyn.

Awgrymodd TJ y dylai Aelodau'r BGC ystyried y Cynllun drafft diwygiedig o ran ei strwythur yn gyntaf, ac wedyn mater Tai, ac yn olaf, bydd aelodau'r BGC, a phartneriaid statudol yn arbennig, yn cael eu gwahodd i wneud unrhyw sylwadau penodol.

Strwythur

Cytunwyd y croesawir y newid yn y strwythur a'i fod yn gywir. Nodwyd bod y ddogfen yn hawdd ei darllen a'i deall o safbwynt y cyhoedd.

Cafwyd trafodaeth fer ar ystyried cysylltiadau â Chynlluniau eraill a deddfwriaeth arall. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i lunio rhestr ar-lein gyda dolenni i wefannau, dogfennau perthnasol ac ati. Bydd LR yn edrych ar ychwanegu hyn at dudalennau presennol y BGC.

LR

Hefyd, bu'r BGC yn trafod y newid ym meddylfryd ac ymroddiad sefydliadau partner y byddai ei angen er mwyn i'r Cynllun fod yn llwyddiant. Byddai'n bwysig i gymryd risgiau ac i aelodau'r BGC eu hunain gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau cynnydd y camau gweithredu o fewn y Cynllun, heb ddirprwyo tasgau i eraill a allai 'atal' cynnydd heb fod yn ymwybodol o hynny. Yn ogystal, bydd gan bartneriaid gyfrifoldeb dros hyrwyddo'r Cynllun o fewn eu sefydliadau eu hunain.

Cytunwyd y cynhelir trafodaeth fwy manwl yn y cyfarfod nesaf ynghylch sut i sicrhau cynnydd y camau gweithredu o fewn y Cynllun.

NE ar
gyfer
agenda

Tai

Cafwyd trafodaeth fer ar fater tai o fewn y Cynllun. Cytunwyd y byddai datganiad yn cael ei ychwanegu at y Cynllun er mwyn nodi y bydd materion eraill yn cael eu trin wrth iddynt ddod i'r amlwg ac y dylid caniatáu i unrhyw grwpiau a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r nodau o fewn y cynllun benderfynu ar yr hyn y byddant yn ei ystyried. Un prawf o effeithiolrwydd y Cynllun fyddai p'un ai y byddai'n rhoi cyfle a strwythur i'r BGC sicrhau cynnydd a mynd i'r afael â materion megis tai.

Sylwadau penodol

Nodwyd sylwadau penodol gan bartneriaid a gwneir newidiadau i'r Cynllun fel y cytunwyd.

Cymeradwywyd fersiwn ddrafft derfynol y Cynllun yn unfrydol gan y rhai a oedd yn bresennol trwy godi llaw, yn amodol ar y newidiadau a gytunwyd yn y cyfarfod.

5 Unrhyw Fusnes Arall

Cafwyd cynnig gan JF i roi cyflwyniad i'r BGC ar Gredyd Cynhwysol. Cytunwyd bod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried ar gyfer y digwyddiad BGCau rhanbarthol. Hefyd, rhoddodd wybod i bartneriaid am ddigwyddiad yn canolbwyntio ar y diwydiant lletygarwch a gynhelir yn Bluestone ar 12 Mawrth. Bydd yn anfon y manylion a gwahoddiad at LR i'w dosbarthu i'r grŵp.

JF

Nododd NP, wrth ystyried sut y gallent gefnogi BGCau, fod LIC yn ystyried hyfforddiant 'bwrdd iach', a allai fod ar ffurf hyfforddiant generig neu drwy ddarparu 'hyfforddwr' ar gyfer Bwrdd. Nododd hefyd fod gan Sir Benfro enw da am fod yn un o'r BGCau mwyaf ymarferol. Cytunodd y partneriaid y byddai ganddynt ddiddordeb mewn dull 'hyfforddwr' ar gyfer y Bwrdd a gofynnwyd i NP roi gwybod hyn i LIC. Bydd LR yn cysylltu â NP yn nes ymlaen i wirio cynnydd.

LR

Nododd JM y byddai digwyddiad ar y cyd gan y Cyngor a PLANED ar fuddsoddiad rhanbarthol ar ôl Brexit yn cael ei gynnal ddydd Mercher 14 Chwefror a gwahoddir partneriaid i fod yn bresennol.

Gofynnodd SJ i'r Bwrdd ystyried sut yr hoffent gymryd rhan ffurfiol yn yr ymgynghoriad Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol. Cytunwyd y byddai'n rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ac y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried fel eitem agenda bosibl ar gyfer y digwyddiad BGCau Rhanbarthol.

**SJ/
NE ar
gyfer
agenda**

Bu trafodaeth fer gan bartneriaid ar gyfathrebu ynghylch lansio'r Cynllun. Awgrymwyd y dylai Sir Benfro ddefnyddio llwyfannau gwahanol, fel Instagram a Snapchat, i hyrwyddo'r Cynllun yn ogystal â'r dulliau arferol. Bydd aelodau'r BGC yn anfon manylion eu staff cyfathrebu at LR er mwyn sicrhau y bydd y strategaeth ar gyfer lansio'r Cynllun yn gyson ac yn cynnwys yr holl bartneriaid.

PAWB

Codwyd pryderon gan SL ynghylch tudalennau gwe presennol y BGC a'r ffaith eu bod yn cael eu cynnal ar wefan CSP ac yn anodd dod o hyd iddynt. Bydd LR yn edrych eto ar gostau sy'n gysylltiedig â gwefan a gynhelir yn allanol.

LR

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.